# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**(CA(3)-13-10)**

## CA437 : Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau Gorchymnion Rhan 2A") yn ategu darpariaethau Rhan 2A Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") sy'n galluogi Ynadon Heddwch, drwy orchymyn, i osod cyfyngiadau a gofynion ar bobl, neu mewn perthynas ag eiddo neu bethau, at ddibenion diogelu iechyd. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion mewn perthynas â'r dystiolaeth y mae'n rhaid i Ynad Heddwch ei chael cyn gwneud gorchymyn, yn darparu dulliau o amddiffyn pobl y gallai gorchymyn effeithio arnynt, ac yn darparu ar gyfer monitro gorchmynion a rhai materion gweithdrefnol.

### Craffu technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn.

### Craffu ar rinweddau

### Pryderon yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol (yr Ymddiriedolaeth)

Tynnwyd sylw aelodau'r Pwyllgor at bapur briffio gan yr Ymddiriedolaeth a ychwanegwyd fel atodiad i'r adroddiad hwn. Cododd yr Ymddiriedolaeth bryderon ynglŷn â goblygiadau Gorchmynion Rhan 2A ar gyfer pobl sydd â HIV ac ar gyfer polisi iechyd rhywiol yn fwy cyffredinol.

Roedd yr Ymddiriedolaeth yn pryderu y byddai'r pwerau sydd ar gael i Ynadon Heddwch yn rhoi gormod o gwmpas ar gyfer cymryd mesurau cymhellol yn erbyn y rheini sydd â heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Roedd yn pryderu, ymysg pethau eraill, y gallai hyn danseilio parodrwydd pobl sydd â HIV a heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol i wirfoddoli i gael profion a thriniaeth.

Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r Pwyllgor ofyn am sicrwydd ynglŷn â nifer o faterion gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, roedd eisiau sicrwydd y byddai'r Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau sy'n debyg i'r canllawiau a gyhoeddwyd eisoes gan yr Adran Iechyd yn Lloegr, sy'n pwysleisio mai dim ond mewn achosion eithriadol iawn y dylid gweithredu pwerau'r rheoliadau hyn ac y dylid gwneud hynny mewn modd sensitif mewn perthynas â phobl sydd â HIV neu heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol.

### Ystyriaeth y Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor:

fod y rheoliadau hyn yn debyg o ran sylwedd i'r rheoliadau a wnaed eisoes yn Lloegr;

bod y Memorandwm Esboniadol wedi cyfeirio at ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn amlinellu'r pryderon ynglŷn â sefyllfa pobl sydd â HIV neu heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol;

bod y Memorandwm Esboniadol wedi esbonio bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymdrin â'r pryderon hyn lle'r oedd hynny'n bosibl ond ei bod yn teimlo, mewn rhai achosion, y gellid ymdrin â'r materion yn well mewn canllawiau;

nad oedd y canllawiau i gyd-fynd â'r rheoliadau wedi cael eu cyhoeddi eto; a

bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi cynnal ymchwiliad i achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr a darparwyr gofal iechyd proffesiynol.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog yn ateb pryderon yr Ymddiriedolaeth yn uniongyrchol yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y rheoliadau.

Caiff adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ei gyhoeddi'n fuan. Efallai yr hoffai'r Llywodraeth ystyried effaith y rheoliadau hyn hefyd mewn perthynas â'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwnnw, yn enwedig y materion mewn perthynas â'r stigma a gysylltir â'r rheini sydd â HIV a heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol.

Yng ngoleuni'r uchod, cytunodd y Pwyllgor fod pryderon yr Ymddiriedolaeth yn codi materion o bolisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad ac y dylai'r Pwyllgor, felly, gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii).

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
13 Mai 2010